# Ysgol Aberconwy

# Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon

**DOGFEN BOLISI RHIF: 10 RHIFYN: 2**

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU LLAWN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 15/3/16**

**Dyddiad adolygu : 1/3/19 Cyswllt TA : LJS**

**YSGOL ABERCONWY**

**POLISI: CYFLENWI AR GYFER ABSENOLDEB ATHRAWON**

O fis Medi 2004 ymlaen dyma oedd y gofynion:

Bydd terfyn cytundebol o 38 awr yn y lle cyntaf, a'r bwriad yn y pen draw yw sicrhau mai anaml iawn y bydd athrawon yn cyflenwi ar gyfer cydweithwyr absennol. Mae 'prin gyflenwi' wedi bod ar waith ers 2009.
Rhaid i benaethiaid sicrhau bod pob un o'r athrawon (gan gynnwys y pennaeth) yn rhannu'r gwaith o gyflenwi ar gyfer athrawon absennol, gan gadw mewn cof eu dyletswyddau addysgu a'u dyletswyddau eraill, a buddioldeb ymatal rhag defnyddio un o athrawon yr ysgol nes bydd pob dull rhesymol arall o ddarparu cyflenwi wedi methu.

Pan fydd y terfyn yn weithredol, ni fydd yn briodol i ysgolion geisio cynyddu'r cyflenwi hyd y terfyn hwnnw. Mae hyn yn berthnasol i'r ysgol gyfan, yn hytrach nag unigolion yn unig.

Gall y pennaeth a'r corff llywodraethu ddefnyddio'u disgresiwn i wneud penderfyniadau am natur polisi cyflenwi tymor hir a thymor byr yr ysgol.

**Cyflenwi Absenoldeb – Golwg Gyffedinol**

Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon 2004 yn nodi bod absendoldeb yn digwydd "pan fo'r athro sydd fel rheol yn gyfrifol am ddysgu dosbarth penodol yn absennol o'r dosbarth yn ystod y cyfnodau hynny y maent wedi eu hamserlennu i'w dysgu". Gallai'r absenoldeb hwnnw ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys gweithgareddau mewnol ac allanol yn ogystal â salwch, a gallai fod am gyfnod hir neu dymor byr.

Mae trefnu gwasanaeth cyflenwi yn elfen allweddol o ymagwedd gyfan yr Ysgol tuag at ddarparu addysg o safon uchel ar gyfer pob disgybl yn absenoldeb staff sy'n addysgu. Ym marn y pennaeth a'r corff llywodraethu, mae'n amhriodol i unrhyw un heblaw am athro cymwysedig gyflenwi am fwy na 5 niwrnod yn olynol, oni bai bod yr amgylchiadau yn rhai eithriadol. Mae hyn yn unol â'r *Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru, Lloegr).* Y pennaeth sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r cyfnod hiraf y gellir gwneud hyn.

**Absenoldeb Tymor Hir**

Fel rheol mae'n bosibl rhagweld absenoldebau tymor hir, fel mamolaeth neu salwch tymor hir, ac felly mae'n haws ymdopi â'r sefyllfa. Mae safon addysgu a dysgu'r disgyblion yn hollbwysig, ac felly yn ôl y drefn arferol, athrawon cymwysedig yn unig fydd yn cyflenwi ar gyfer absenoldebau o'r fath. Os ceir absenoldeb tymor hir, dull arferol yr ysgol o weithredu (nid yn nhrefn blaenoriaeth) fydd:

- Trefniadau tymor byr ar gyfer diwrnod 1 i 5.
- Defnyddio athro symudol (os oes un ar gael).
- Athro cyflenwi o'r chweched diwrnod ymlaen.
- Lle bo'n briodol gwneir penodiad tymor penodol (addas iawn ar gyfer cyfnod mamolaeth).

**Absenoldeb Tymor Byr**

Dyma ddiffiniad yr ysgol o absenoldeb tymor 'byr':

- Absenoldebau sy'n hysbys ymlaen llaw e.e. datblygiad proffesiynol/apwyntiad meddygol (os na ellir ei drefnu y tu allan i'r diwrnod gwaith).
- 1 - 5 diwrnod o absenoldeb heb ei gynllunio e.e. salwch staff.

- Ymweliadau a gweithgareddau ysgol, gemau chwaraeon.

Gan ddibynnu ar amserlen yr athro absennol, mae’n debygol y bydd goruchwyliaeth gyflenwi yn troi’n ‘waith penodedig’ o fewn 5 niwrnod ac y bydd angen addysgu’n weithredol. Dan amgylchiadau o’r fath bydd y pennaeth yn sicrhau bod addysgu a dysgu yn digwydd drwy gyfrwng un neu fwy o’r dulliau canlynol (nid yn nhrefn blaenoriaeth):

- Cyflogi athro cyflenwi.
- Cyfarwyddo’r Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch i gymryd y dosbarth (os yw ar gael).
- Defnyddio goruchwyliwr cyflenwi.
- Ad-drefnu’r grŵp blwyddyn fel bod pob dosbarth yn cael ei ‘oruchwylio’ am ran o’r diwrnod ac yn cael ei ddysgu am y rhan fwyaf o’r diwrnod.

  Bydd y Pennaeth a’r Pennaeth Adran yn penderfynu hyn ar y cyd.

**Strategaethau Cyflenwi**

Mae’r Corff Llywodraethu wedi cytuno y dylai amryw o strategaethau fod ar gael i’r Pennaeth wrth ddelio ag absenoldebau tymor byr. Pwrpas hyn yw galluogi’r Pennaeth i ddelio ag absenoldebau athrawon mewn ffordd sy’n gydnaws â’r Cytundeb Cenedlaethol ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau’r ysgol. Fel ysgol, dyma ein prif ystyriaethau:

I ba raddau y gellir sicrhau dilyniant yn y dysgu.
Y cyfnod o amser y bydd y disgyblion yn gweithio heb athro cymwysedig.
Anghenion penodol y dosbarth dan sylw.
Sgiliau a phrofiad yr athro/cynorthwyydd addysgu/goruchwyliwr cyflenwi/athro cyflenwi/athro symudol/ayb dan sylw.

**Trefniadau Presennol**

Ar hyn o bryd mae’r ysgol yn dilyn trefn sy’n manteisio ar gyfuniad o gyflenwi gan staff presennol, athrawon cyflenwi a staff cynorthwyol priodol. Nifer bach iawn o’n hathrawon (os o gwbl) sy’n cyflenwi fel arfer, yn unol â’r cytundeb cenedlaethol ‘prin gyflenwi’ erbyn 2009, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Weithiau defnyddir Penaethiaid Tŷ i gyflenwi cyfnodau dosbarth, ond byth mwy na 10 sesiwn gyflenwi bob blwyddyn.

**Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

Fel y nodwyd uchod, gall y pennaeth ddefnyddio’i ddisgresiwn i ddefnyddio rhai neu bob un o’r canlynol er mwyn cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon.

**Athrawon Cyflenwi**

Os defnyddir athrawon cyflenwi, bydd yr ysgol yn derbyn pobl gyda chymwysterau priodol yn unig. Bydd angen i asiantaethau nodi a yw athrawon yn ANG.

Pan gyflogir athro cyflenwi cymwysedig, byddwn yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn addysgu ac yn hyrwyddo dysgu, yn hytrach na goruchwylio’r disgyblion yn unig. Mae’n gyfrifoldeb ar y Pennaeth Adran perthnasol i sicrhau parhad a chynnydd yn nysgu’r disgyblion.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser athro cyflenwi, bydd yr ysgol yn sicrhau bod y deunyddiau canlynol ar gael at ddefnydd athro cyflenwi sy’n cyflenwi absenoldeb tymor hir neu gyfnod mamolaeth.

- Pecyn anwytho’r ysgol, yn datgan polisïau allweddol e.e. ar reoli ymddygiad

- Cynlluniau gwers wedi'u hesbonio'n glir sy'n diffinio'r disgwyliadau addysgu, yr adnoddau i'w defnyddio, yr hyn y dylid ei ofyn gan y dosbarth a'r gwaith cartref y dylid ei osod
- Gwybodaeth am alluoedd a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion
- Mynediad i DPP (ar gyfer apwyntiadau am dymhorau hirach)

**Goruchwylwyr Cyflenwi**

Fel rhan o'n strategaeth gyflenwi tymor byr, byddwn yn gwneud defnydd effeithiol o staff cynorthwyol gyda'r sgiliau a hyfforddiant priodol. Gellid defnyddio goruchwylwyr cyflenwi I gyflawni'r rôl hon yn unig, neu fel rhan fawr o'u swydd, (er enghraifft, gallai mentor arweiniol sydd eisoes yn gweithio yn yr ysgol gael eu cyflogi fel goruchwyliwr cyflenwi). Bydd disgrifiadau swydd, manylebau person a chyflogau yn unol â safonau a strwythur cyflogau a graddio'r AALl.

Mae goruchwyliwr cyflenwi yn rôl gyfrifol a bydd yr ysgol yn sicrhau bod y staff sy'n cyflawni'r gwaith hwnnw yn:

- Meddu ar ddatgeliad manwl gan y Biwro Cofnodion Troseddol
- Gyfarwydd â'r ystod lawn o bolisïau ysgol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, Cyfleoedd Cyfartal ac Anghenion Arbennig
- Meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gynnal gweithgareddau dosbarth yn ddiogel
- Deall ac yn gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddelio ag ymddygiad dosbarth cyfan ac anghenion ymddygiadol unigol
- Deall y strwythur rheoli llinell a'u rôl mewn perthynas ag oedolion eraill yn y dosbarth (e.e. cynorthwywyr gwirfoddol).

Gan gofio y gall fod angen gwneud trefniadau gwahanol er mwyn adlewyrchu'r oedran a threfniadaeth yr ysgol, dyma'r gweithgareddau creiddiol:

- Dros dymor byr, goruchwylio gwaith a osodwyd eisoes fel rhan o'r cwricwlwm arferol, yn unol â pholisi'r ysgol. Ni ddisgwylir i athrawon baratoi deunydd ychwanegol yn benodol ar gyfer goruchwylwyr cyflenwi fel y gallant ei ddefnyddio yn ystod eu habsenoldeb. Fodd bynnag, disgwylir iddynt weithredu'n broffesiynol drwy baratoi deunydd ar gyfer eu cynllun gwers arferol sy'n briodol i'w ddefnyddio gan staff sy'n cyflenwi.
- Rheoli ymddygiad disgyblion yn unol â'n polisïau wrth gyflawni'r gwaith hwn er mwyn creu amgylchedd cadarnhaol
- Pan nad yw'r athro'n addysgu'n weithredol, ymateb i gwestiynau disgyblion, er enghraifft am broses a gweithdrefnau
- Delio ag unrhyw broblemau neu argyfyngau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol
- Casglu unrhyw waith a gwblhawyd ar ôl y wers a'i ddychwelyd i'r athro
- Adrodd yn ôl am ymddygiad disgyblion yn ystod y dosbarth ac unrhyw faterion sy'n codi, fel bo'n briodol, gan ddefnyddio gweithdrefnau cyfeirio cytunedig yr ysgol.
- Marcio gwaith lle gellir gwneud hyn drwy gyfeirio at grid atebion, e.e. mewn cwestiynau amlddewis.

Bydd yr ysgol yn cytuno ar strategaethau ar gyfer gosod gwaith fel nad yw hyn yn rhoi gormod o bwysau ar waith cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

At bwrpas y polisi hwn:

- Bydd pob dyletswydd cyflenwi yn cael ei chofnodi a'i chyfrif gan reolwr cyflenwi SIMs, gan gynnwys unrhyw gyfnodau digyswllt a ddynodwyd yn benodol ar gyfer cyflenwi
- Caniateir defnyddio amser arweiniol a rheoli, ond nid yn anghymesur. Bydd yr amser hwn hefyd yn cael ei gyfrif.

- Ni chaniateir defnyddio'r amser CPA a warentir (a fydd yn ffurfio rhan o'r amodau cyflogaeth cyfreithiol o Fedi 2005 ymlaen).
- Ar brydiau, mae'n bosibl y bydd rhaid dyblu dosbarth neu ei rannu rhwng staff eraill. Nid yw'r trefniant hwn yn gydnaws â nodau'r Cytundeb Cenedlaethol ond efallai y bydd rhaid gwneud hynny os nad oes dewis arall. Bydd unrhyw oriau a weithir dan yr amodau hyn yn cael eu cyfrif.

**Canolfannau Adnoddau Dysgu'r Cwricwlwm**

Mae cyflenwi yn gallu bod yn arbennig o fuddiol pan fydd gwaith wedi cael ei osod yn ofalus ymlaen llaw neu lle mae disgyblion yn ymgymryd ag astudiaethau hunan-gyfeiriedig effeithiol. Gall defnyddio canolfan adnoddau dysgu i gefnogi astudiaethau hunan-gyfeiriedig fod o fudd os yw'r dysgu a wneir yno'n seiliedig ar DGCh.  Ni ddylai'r trefniadau a wneir osod ormod o bwysau ar athrawon, ond efallai y byddai'n ymarferol i ddatblygu banciau o ddeunyddiau priodol y gellid eu defnyddio mewn canolfan adnoddau dysgu gyda chymorth staff eraill.

**Teithiau Addysgol**

Gweithgareddau a gynlluniwyd yw teithiau addysgol. Gallent beri bod athro yn absennol er mwyn cymryd rhan mewn gweithgaredd dosbarth arall. Os yw aelod o'r staff addysgu yn cael eu defnyddio i gyflenwi ar y daith, h.y. i bob pwrpas trwy ddefnyddio amser digyswllt ar gyfer y daith, bydd hyn yn cyfrif tuag at gyfanswm y wers gyflenwi.

**Amser a Enillwyd**

Yn aml yn ystod y flwyddyn academaidd, yn enwedig yn ystod yr haf, ni fydd athrawon sy'n dysgu dosbarthiadau neu grwpiau gydag arholiadau yn gorfod cyflawni'r cyfnod addysgu llawn sydd ar eu hamserlen, am fod y disgyblion wedi cael eu rhyddhau ar gyfer astudio neu arholiadau. Gelwir yr amser hwn yn 'amser a enillwyd'.

Byddai defnyddio amser a enillwyd yn briodol ac yn ddymunol ar gyfer rhai gweithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag addysgu a dysgu, a byddi'n rhesymol i'r pennaeth gyfarwyddo'r athrawon i'w cyflawni. Dyma restr o weithgareddau o'r fath:

Datblygu/adolygu deunyddiau cwricwlwm adrannol/pynciol, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwers a pholisïau yn barod at y flwyddyn academaidd newydd.
Helpu cydweithwyr i gyflawni gweithgareddau addysgu priodol a gynlluniwyd
Cymryd grwpiau o ddisgyblion er mwyn darparu cymorth dysgu ychwanegol
Cefnogi disgyblion penodol gyda'u gwaith cwrs
Cyflawni gweithgareddau a gynlluniwyd gyda disgyblion sy'n trosglwyddo o un grŵp blwyddyn i'r nesaf, neu o ysgolion cynradd.

Dim ond athrawon heb amserlen cyfredol, h.y. y rhai a fydd yn gadael yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, a gyfarwyddir i gyflenwi ar gyfer cydweithwyr absennol yn ystod amser a enillwyd.

**Monitro**

Bydd y Corff llywodraethu'n sicrhau bod pob athro yn cadw log o'r oriau a ddefnyddiwyd at ddiben cyflenwi, gan gynnwys oriau'r Pennaeth.  Gan y Pennaeth y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a darparu adroddiad blynyddol i'r Llywodraethwyr.

**Atodiad Un**

Sefyllfaoedd posibl lle gallai fod angen athrawon cyflenwi.

Nid yw'r rhestr hon yn un drwyadl a bydd y Pennaeth yn penderfynu a ddylid cynnwys rhesymau ychwanegol dros absenoldeb, gan gadw mewn cof ysbryd a bwriad y polisi hwn.

- Salwch tymor byr
- Mynychu cyfarfodydd (mewnol ac allanol)
- Apwyntiadau meddygol (pan na ellir eu trefnu y tu allan i oriau ysgol)
- Gweithgareddau datblygiad proffesiynol (DPP)
- Rhesymau teuluol (mae'n bosibl y dyfarnwyd absenoldeb tosturiol)
- Absenoldeb rhiant (di-dâl)
- Arferion crefyddol
- Taith addysgol
- Salwch tymor byr
- Profedigaeth
- Absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu
- Swydd ddysgu wag
- Arall